

Julie Morgan AS, y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Dyddiad | Date: 04 Rhagfyr 2020

Pwnc | Subject: **Adroddiad Hawliau Plant: y camau nesaf**

Annwyl Julie,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Medi 2020 lle gwnaethoch ddarparu ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad ar Hawliau Plant yng Nghymru.

Rwy'n ysgrifennu er mwyn:

- rhoi gwybod i chi am yr ymgynghoriad a gynhaliom â rhanddeiliaid ar ymateb Llywodraeth Cymru, i lywio ein paratodau ar gyfer y ddadl sydd i'w chynnal yn y Cyfarfod Llawn ar yr adroddiad hwn;
- gofyn am rywfaint o wybodaeth gennych yn deillio o'r ymatebion a gawsom; a
- gofyn am ragor o wybodaeth gennych ynghylch un o'r argymhellion a wrthodwyd.

Gofynnir am y wybodaeth hon i lywio ein gwaith parhaus ar hawliau plant a'n gwaith craffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil Cwricwlwm ac Asesu. Byddwch yn ymwybodol bod y ddadl Cyfnod 1 ar y Bil hwnnw wedi'i drefnu ar gyfer 15 Rhagfyr 2020. Felly, byddem yn ddiolchgar o gael y wybodaeth benodol hon cyn y dyddiad hwnnw. Mae manylion yr holl wybodaeth y gofynnwyd amdani ar gael isod.

### **Ymgynghoriad cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar yr adroddiad Hawliau Plant**

Yn dilyn eich ymateb i'n hargymhellion, gofynnem am adborth gan randdeiliaid, gyda'r bwriad o'i ddefnyddio i arwain y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar yr adroddiad hwn. O ystyried faint o amser sydd ers i'r Pwyllgor glywed tystiolaeth, fe wnaethom ofyn hefyd am unrhyw wybodaeth newydd arwyddocaol mewn perthynas â hawliau plant nad ydynt o bosibl yn cael eu cwmpasu yn yr argymhellion a wnaethom. Mae'r ymatebion a gawsom wedi'u cyhoeddi ar [wefan y Pwyllgor](#).



**Senedd Cymru**  
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

✉ [SeneddPPIA@senedd.cymru](mailto:SeneddPPIA@senedd.cymru)

☎ 0300 200 6565

**Welsh Parliament**  
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

✉ [SeneddCYPE@senedd.wales](mailto:SeneddCYPE@senedd.wales)

☎ 0300 200 6565

Yn seiliedig ar yr ymatebion a gafwyd, byddem yn ddiolchgar pe gallech gysylltu â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu copi o'r Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant mewn perthynas â:

- yr adolygiad a'r newidiadau a wnaed i fodel cyllido ar sail gweithgaredd Llywodraeth Cymru; a
- dyrannu cyllid i Seilwaith Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru 2020-2025 Llywodraeth Cymru, fel y cyfeiriwyd ato yn y dystiolaeth gan **Ysbyty Plant Noah's Ark yng Nghymru**.

### **Rhagor o wybodaeth am Argymhelliad 15 yr adroddiad Hawliau Plant:**

Yn eich ymateb i'n hadroddiad, fe wnaethoch wrthod ein hargymhelliad y dylai pob corff cyhoeddus datganoledig gael eu gosod o dan ddyletswydd benodol i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Dywedoch bod angen aros am ganlyniadau'r ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ar gryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru, sydd ar y gweill ym mis Chwefror 2021.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi rhagor o fanylion am gylch gorchwyl yr ymchwil hon a nodi a fydd yr ymchwil yn ystyried yn benodol rinweddau a dichonoldeb gosod dyletswyddau ar gyrrff cyhoeddus mewn perthynas â'r Confensiwn.

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor wedi trafod dyletswydd i roi sylw dyledus i'r Confensiwn yn fanwl yn ystod y gwaith o graffu ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu yng Nghyfnod 1 ac mae wedi gwneud yr argymhellion a ganlyn:

---

"That the Welsh Government amend the Bill to include, on its face, a duty to have due regard to the UN Convention on the Rights of the Child (UNCRC). Given their respective roles in relation to the Curriculum for Wales, this duty should be placed on all persons listed in section 66(3) of the Bill when exercising any of their functions conferred by or under the Bill."

---

Y personau a restrir yn 66(3) yw:


- (a) pennaeth ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir;
- (b) corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir;
- (c) darparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir;
- (d) yr athro neu'r athrawes sydd â chyfrifoldeb am uned cyfeirio disgyblion;
- (e) y pwyllgor rheoli ar gyfer uned cyfeirio disgyblion;
- (f) person sy'n darparu addysgu a dysgu ar gyfer plentyn, ac eithrio mewn ysgol a gynhelir, ysgol feithrin a gynhelir neu uned cyfeirio disgyblion, yn rhinwedd trefniadau a wneir o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56);

(g) awdurdod lleol yng Nghymru.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech egluro a fydd cylch gorchwyl yr ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru sydd i'w hadrodd ym mis Chwefror 2021 yn ystyried yn fanwl unrhyw beth sy'n berthnasol i'r argymhelliad hwn. **Byddem yn ddiolchgar o gael y wybodaeth hon erbyn 14 Rhagfyr 2020 ar yr hwyraf er mwyn llywio'r ddadl Cyfnod 1.**

O gofio'r diddordeb cyffredin yn hyn o beth, rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Addysg.

Yn gywir,



**Lynne Neagle AS**  
**Cadeirydd**

Cc Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.